Rhif: **WG19401**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Canllaw diwygiedig ar ddiogelu plant mewn addysg

Dyddiad cyhoeddi: **Ionawr 2015**

Canllaw diwygiedig ar ddiogelu plant mewn addysg

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir; athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion; awdurdodau esgobaethol yr eglwys; perchnogion ysgolion annibynnol; penaethiaid sefydliadau addysg bellach; undebau staff ysgolion; Llywodraethwyr Cymru; Gyrfa Cymru; awdurdodau addysg uwch a Chadeiryddion Byrddau Diogelu Plant Lleol. Dylai staff o fewn y sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am ddiogelu plant hefyd ddarllen y ddogfen hon.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion gan randdeiliaid ynghylch y ddogfen *Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002*.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Debbie Campbell
Tîm Dysgwyr Amrywiol a Diogelu
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5807
e-bost: keepinglearnerssafe@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Dogfennau cysylltiedig

Diogelu plant mewn addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002 Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 005/2008 (2008)

Canllaw diwygiedig ar ddiogelu plant mewn addysg – Pennod 6: 'Ymateb i honiadau o gam-drin yn erbyn arthawon a staff eraill (2014)

ISBN digidol 978 1 4734 2887 4
© Hawlfraint y Goron 2015
WG19401

Cynnwys

Cefndir **2**

Yr ymgynghori **3**

Ymateb i’r cwestiynau ymgynghori **4**

Y camau nesaf **11**

Cefndir

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ganllawiau diwygiedig ‘Diogelu Plant mewn Addysg’ rhwng 27 Awst a 25 Hydref 2013. Cafodd y canllawiau eu diwygio er mwyn eu diweddaru fel eu bod yn adlewyrchu newidiadau i’r trefniadau diogelu ers cyhoeddi’r canllawiau cyfredol yn 2008, yn cynnwys cyflwyno’r trefniadau Datgelu a Gwahardd.

Daeth Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 i rym yng Nghymru ar 1 Medi 2006. Creodd ddyletswydd gyfreithiol ar bob awdurdod lleol, ysgol a gynhelir a sefydliad addysg bellach i arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy’n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gylchlythyr Rhif: 005/2008 *Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002*, i ddarparu canllawiau ar sut i weithredu’r ddyletswydd statudol hon. Roedd yr ymgynghori cyhoeddus ar y canllawiau diwygiedig drafft *Diogelu mewn Addysg* yn gyfle i gasglu barn i weld a oedd ein newidiadau i’r canllawiau yn ddefnyddiol, a oedd y strwythur a’r fformat newydd yn rhwydd eu defnyddio, ac a oedd unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys. Mae’r crynodeb hwn o’r ymatebion yn nodi’r prif sylwadau a’r safbwyntiau a ddarparwyd gan randdeiliaid.

Yr ymgynghori

Roedd y ddogfen ymgynghori'n gofyn tri ar ddeg o gwestiynau penodol am y ddogfen ganllawiau ddiwygiedig, a rhoddai un cwestiwn cyffredinol gyfle i'r ymatebwyr ddarparu unrhyw sylwadau pellach.

Ymatebion a ddaeth i law

Daeth 84 ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad i law i gyd. Roedd yr ymatebion yn deillio o'r sectorau canlynol:

Math o ymatebydd	Nifer yr ymatebion
Awdurdod lleol (yn cynnwys adrannau gwasanaethau cymdeithasol)	7
Penaethiaid/ysgolion/colegau AB	8
Llywodraethwyr	2
Rhieni/gofalwyr	18
Undebau athrawon	4
Byrddau Lleol Diogelu Plant	7
Mudiadau elusennol neu wirfoddol	9
Arall	29
Cyfanswm	84

Mae'r ddogfen hon yn amlygu'r materion a'r themâu allweddol a ddeilliodd o'r ymgynghori, ac nid yw'n ceisio ymdrin â phob un pwynt a godwyd. Rydym serch hynny yn ddiolchgar iawn am y lefel o ymateb a gafwyd gydol y broses hon. Gwerthfawrogir hynny'n fawr. Fel bob amser, roedd drafftio'r canllawiau terfynol yn broses o farnu ac o gydbwyso safbwyntiau.

Ymateb i’r cwestiynau ymgynghori

Daeth 84 ymateb i law i gyd. Roedd nifer yn gadarnhaol, yn dweud bod y canllawiau’n gynhwysfawr ac yn ffynhonnell wybodaeth fanwl. Fodd bynnag, mynegodd llawer bryderon ynglŷn â hyd a chymhlethdod y canllawiau. Argymhellwyd y dylid ailddrafftio’r canllawiau, fel bod llai o ddyblygu ynddynt ac i sicrhau bod y ddogfen yn un gryno, hawdd ei defnyddio, sy’n cyfeirio pobl ymlaen i’r cam nesaf. Nodwyd nifer o wallau hefyd.

Ym mis Ebrill 2014, cyhoeddwyd pennod 6 o’r canllawiau drafft fel canllawiau annibynnol ar *Ymateb i Honiadau o Gam-drin yn erbyn Athrawon a Staff Eraill*. Cyhoeddwyd crynodeb o’r ymatebion law yn llaw â’r canllaw hwn.

1. A yw’r eirfa yn y Rhagair yn rhoi diffiniadau clir, defnyddiol o dermau allweddol? Os nad ydyw, beth y gellir ei wella a sut?

	Cyfanswm
Nifer yr ymatebwyr	84
Ydy	24 (29%)
Nac ydy	2 (2%)
Ddim yn siŵr	3 (4%)
Gwag	55 65%)

Dywedodd y mwyafrif o’r rhai a atebodd y cwestiwn hwn fod y diffiniadau’n glir, felly hefyd yr eirfa yn y rhagair. Drwyddi draw awgrymodd yr ymatebwyr fod yr eirfa’n glir a chryno ac yn gyson â’r diffiniadau a geir mewn dogfennau diogelu pwysig eraill fel Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

2. A yw Pennod 1 yn gwneud yn eglur y dyletswyddau statudol a’r canllawiau sy’n berthnasol i ddarparwyr addysg mewn perthynas â diogelu? Os nad ydyw, sut y gellir ei gwella?

	Cyfanswm
Nifer yr ymatebwyr	84
Ydy	21 (25%)
Nac ydy	2 (2%)
Ddim yn siŵr	4 (4%)
Gwag	58 69%)

Nodai’r mwyafrif o’r ymatebion fod y bennod hon wedi’i llunio’n eglur, er ei bod yn rhy hir a manwl. Cwestiynai amryw a oedd angen cymaint o wybodaeth mewn dogfen ganllaw (tra’r awgrymodd eraill y dylid ychwanegu gwybodaeth arall). Codwyd un mater allweddol ynglŷn â Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Awgrymodd ymatebwyr ei bod yn bosib y byddai newidiadau sy’n cael eu cynnig yn effeithio’n arwyddocaol ar y canllawiau diwygiedig hyn ac roedd peth pryder fod perygl, unwaith y deuai’r ddeddfwriaeth i rym, y byddai’r canllawiau hyn wedi dyddio eto yn fuan iawn. Awgrymodd un ymatebydd a oedd hefyd wedi mynegi’r farn hon y dylai’r canllawiau gael eu diffinio fel rhai ‘interim’ er mwyn tynnu sylw at fwriad

Llywodraeth Cymru i adolygu'r canllawiau yn sgil gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Argymhellodd ymatebwyr hefyd y dylai'r canllawiau gael eu cadw fel e-ddogfen fel bod modd ei diweddaru'n hawdd.

3. A yw Pennod 1 yn esbonio yn eglur y strwythurau diogelu aml-asiantaethol yng Nghymru? Os nad ydyw, sut y gellir ei gwella?

	Cyfanswm
Nifer yr ymatebwyr	84
Ydy	21 (25%)
Nac ydy	0 (0%)
Ddim yn siŵr	3 (4%)
Gwag	60 (71%)

Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr yn meddwl bod yr adran hon yn gynhwysfawr a defnyddiol. Fodd bynnag, roedd eraill hefyd yn teimlo bod cymaint o wybodaeth am ddeddfwriaeth a strwythurau aml-asiantaethol yn ddryslyd.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at ddileu Byrddau Lleol Diogelu Plant a defnyddio'r term Byrddau Rhanbarthol Diogelu Plant, neu byddai'r ddogfen wedi dyddio cyn gynted ag y câi ei rhyddhau. Yn y cyd-destun hwn, fel canllawiau statudol, rhaid cyfeirio at Fyrddau yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth y cânt eu llywodraethu oddi tanynt ar hyn o bryd – Deddf Plant 2004. Caiff terminoleg newydd a gyflwynir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Byrddau Diogelu Plant (nid 'Rhanbarthol') eu hystyried pan gaiff y canllawiau newydd eu hadolygu ar ôl Ebrill 2016.

4. A yw'r canllaw ym Mhennod 2 ar rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol asiantaethau yn eglur, cywir ac yn ddefnyddiol? Os nad ydyw, sut y gellir ei wella?

	Cyfanswm
Nifer yr ymatebwyr	84
Ydy	20 (24%)
Nac ydy	5 (6%)
Ddim yn siŵr	2 (2%)
Gwag	57 (68%)

Drwyddi draw roedd consensws fod y bennod wedi'i llunio'n eglur. Fodd bynnag, nodwyd nifer o bryderon penodol. Yn arbennig, awgrymwyd y dylai rôl llywodraethwyr a'r corff llywodraethu gael ei hegluro a'i chryfhau.

Cododd nifer o ymatebwyr bryderon ynglŷn â rôl Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol, a'r ffordd y mae'r term yn cael ei ddefnyddio'n anghyson drwy'r ddogfen. Dywedodd ymatebwyr nad yw'r adran ynglŷn â Swyddogion Dynodedig Awdurdodau Lleol yn addas i'w diben. Term a ddefnyddir yn

Lloegr yw Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol, drwy ganllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, ond dim ond mewn achosion o gam-drin proffesiynol yr oedd i'r rôl gyd-destun, nid mewn trefniadau diogelu ehangach. Mae'r rôl hefyd yn un a ddylai gael ei lleoli yn y gwasanaethau cymdeithasol, nid ym maes addysg. Byddai cadw'r dynodiad hwn yn cyflwyno cryn ddryswch i'r trefniadau yng Nghymru a dylai gael ei ddileu. Fe'n hargyhoeddwyd gan y dadleuon hyn.

5. A yw'r wybodaeth ym Mhennod 3 yn glir ac yn ddefnyddiol? Os nad ydyw, sut y gellir ei gwella?

	Cyfanswm
Nifer yr ymatebwyr	84
Ydy	22 (26%)
Nac ydy	4 (5%)
Ddim yn siŵr	1 (1%)
Gwag	57 (68%)

Ym marn y mwyafrif o'r ymatebwyr roedd pennod 3 yn glir a defnyddiol ac roedd llawer o ymatebwyr, ysgolion yn arbennig, yn croesawu'r lefel o fanylder ynddi. Drwyddi draw, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, ond mynegwyd pryderon ynglŷn â hyd y bennod a'r dyblygu rhyngddi a chanllawiau presennol. Roedd ymatebwyr yn poeni fod perygl, drwy ddyblygu canllawiau presennol, y byddai'r canllawiau'n dyddio'n fuan neu'n creu dryswch ac y gellid osgoi hynny drwy ddarparu hyperddolenni fel na fyddai angen cymaint o wybodaeth. Eto, fe'n hargyhoeddwyd gan y farn hon ac rydym yn cytuno y gallai gormod o ffynonellau cyngor fod yn ddryslyd i ymarferwyr. Lle mae canllawiau'n bodoli'n barod, dylid cyfeirio pobl atynt yn eglur ond gellid darparu rhagor o fanylion lle nad oes canllawiau'n bodoli ar hyn o bryd.

Gwnaed sylwadau'n arbennig ynglŷn ag addysg yn y cartref. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod cyfeiriadau amhriodol neu anghywir at addysg yn y cartref, y dylid eu hailddrafftio.

Cynigiodd ymatebwyr nifer o newidiadau i baragraffau unigol yn y bennod hon. Mae'r holl newidiadau a awgrymwyd wedi cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru.

6. A oes yna unrhyw faterion diogelu eraill y dylid eu cynnwys ym Mhennod 3?

	Cyfanswm
Nifer yr ymatebwyr	84
Ydy	11 (13%)
Nac ydy	8 (10%)
Ddim yn siŵr	3 (4%)
Gwag	62 (73%)

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod pennod 3 yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, gwnaed ceisiadau am wybodaeth ychwanegol am bethau fel esgeulustod, cam-drin domestig a pherthynas fel partneriaid rhwng pobl ifanc yn eu harddegau. Lle'r ydym o'r farn ei bod yn briodol ychwanegu gwybodaeth, mae hynny wedi'i wneud.

7. A yw'r canllaw ym Mhennod 4 ar brosesau recriwtio, gwiriadau cyn penodi a sefydlu a monitro ôl-benodi yn eglur a defnyddiol? Os nad ydyw, sut y gellir ei wella?

	Cyfanswm
Nifer yr ymatebwyr	84
Ydy	20 (24%)
Nac ydy	1 (1%)
Ddim yn siŵr	1 (1%)
Gwag	62 (74%)

Yn gyffredinol canfuwyd bod y bennod hon yn ddefnyddiol iawn ac yn fanwl, er i nifer ddweud ei bod yn ymdrin mwy â 'recriwtio' yn hytrach na 'recriwtio mwy diogel'. Ymysg y materion penodol i'w hystyried ymhellach roedd ceisiadau i wneud y canllawiau ynglŷn â gofynion Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 yn gliriach. Roedd sylwadau a ddaeth i law yn awgrymu y dylid newid yr adran fel ei bod yn cyfeirio at gyflwyno'r broses hidlo y bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ei defnyddio i hidlo gwybodaeth am euogfarnau troseddol o'r gorffennol. Eto, mae hon yn adran hynod o fanwl a fydd o gymorth wrth weithio o ddydd i ddydd yn ogystal ag wrth hyfforddi.

Cynigiodd ymatebwyr nifer o newidiadau i baragraffau unigol yn y bennod hon. Mae'r holl newidiadau a awgrymwyd wedi cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru.

8. A yw Pennod 5 yn rhoi canllaw eglur a defnyddiol am y trefniadau datgelu a gwahardd newydd a sut maent yn berthnasol i staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y gwasanaethau addysg? Os nad ydyw, sut y gellir ei gwella?

	Cyfanswm
Nifer yr ymatebwyr	84
Ydy	19 (23%)
Nac ydy	1 (1%)
Ddim yn siŵr	2 (2%)
Gwag	62 (74%)

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn fodlon â'r adran hon ac yn teimlo ei bod yn eglur ac yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol. Dywedodd rhai ymatebwyr, fodd bynnag, nad oedd y wybodaeth gefndir yn ychwanegu fawr o werth ac nad oedd ond yn cynyddu maint y ddogfen.

Dywedodd ymatebwyr fod yr adran wedi'u hysgrifennu'n glir a bod y wybodaeth a'r canllawiau yr oedd yn eu cyflwyno yn ddefnyddiol iawn.

9. A yw Pennod 6 yn esbonio'n glir y broses o ddelio gyda honiad o gamdriniaeth yn erbyn athrawon a staff eraill neu wirfoddolwyr yn y gwasanaeth addysg? Os nad ydyw, sut y gellir ei gwella?

Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r bennod hon ar:

http://wales.gov.uk/consultations/education/revised-guidance-on-safeguarding-children-in-education/?skip=1&lang=cy

10. A yw Pennod 7 yn esbonio'n glir y broses er cyfeirio achosion at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd? Os nad ydyw, sut y gellir ei gwella?

	Cyfanswm
Nifer yr ymatebwyr	84
Ydy	24 (29%)
Nac ydy	0 (0%)
Ddim yn siŵr	2 (2%)
Gwag	58 (69%)

Roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn awgrymu'n gyffredinol fod y broses wedi'i nodi'n glir. Rhoddwyd croeso arbennig gan ymatebwyr i ddefnyddio'r siart llif ac roeddent hefyd yn teimlo y byddai defnyddio'r dechneg hon mewn penodau eraill yn y ddogfen yn lleihau swmp y canllawiau. Fodd bynnag, gan ddilyn yr un drefn ag a fabwysiadwyd wrth ailddrafftio Pennod 3 o'r drafft ymgynghori, rydym o'r farn y gallai hyd a lled a manylder y drafft arwain at ddryswch, yn enwedig lle gallai newidiadau gael eu gwneud i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac na fyddai hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghanllawiau statudol Llywodraeth Cymru. Nid yw hwn yn gynllun sydd wedi'i ddatganoli, felly yr hyn a wnaed yw cyfeirio'r rhai y mae angen cyngor ac arweiniad arnynt yn gryfach at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a darparu crynodeb o'r gwasanaeth llawn sy'n cael ei ddarparu.

Awgrymwyd nifer o newidiadau ac mae'r rhain wedi cael eu hystyried wrth ailddrafftio'r canllawiau terfynol.

11. A yw'r nodiadau enghreifftiol i staff, rhieni/gofalwyr a dysgwyr a'r polisi diogelu plant yn yr Atodiadau yn ddefnyddiol? Os nad ydynt, sut y gellir eu gwella?

	Cyfanswm
Nifer yr ymatebwyr	84
Ydy	21 (26%)
Nac ydy	3 (3%)
Ddim yn siŵr	1 (1%)
Gwag	59 (70%)

Dywedodd ymatebwyr fod y nodiadau enghreifftiol yn ddefnyddiol. Yn arbennig, roedd ymatebwyr yn croesawu'r polisi plant enghreifftiol a'r nodyn enghreifftiol i staff.

Dywedwyd bod darparu enghraifft o bolisi diogelu ar gyfer sefydliadau addysgol unigol yn ddefnyddiol. Dywedodd ymatebwyr hefyd y gallai'r polisi enghreifftiol helpu i sicrhau dull cyson o weithredu ar draws Cymru. Roedd pryderon gan rai ymatebwyr y dylai'r nodiadau enghreifftiol gael eu nodi fel templed i adeiladu arno a'i deilwrio'n unigol, i'w wneud yn fwy perthnasol i'r sefydliad addysgol dan sylw. Rydym wedi ei gwneud yn glir yn y canllawiau terfynol mai 'enghreifftiol' yn unig yw'r polisïau drafft hyn, ac nad ydynt yn rhan o'r canllawiau statudol fel bod gan ymarferwyr hyblygrwydd i'w diwygio yn ôl yr angen.

12. A yw strwythur, arddull a thôn y ddogfen fel cyfanwaith yn ei gwneud yn haws i'w deall ac i gyfeirio ati? Os nad ydynt, sut y gellir eu gwella?

	Cyfanswm
Nifer yr ymatebwyr	84
Ydy	19 (23%)
Nac ydy	3 (4%)
Ddim yn siŵr	1 (1%)
Gwag	61 (72%)

Dywedai nifer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn fod y ddogfen yn rhy hir, y gallai fod yn ddryslyd, ei bod yn cynnwys gormod o wybodaeth gefndir am ddeddfwriaeth arall ac y dylai'r hyperddolenni a ddarparwyd olygu nad oedd angen cymaint o gefndir dianghenraid. Galwyd yn gryf am olygu'r canllawiau i sicrhau dogfen fwy cryno, haws ei defnyddio.

13. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhagnodi y 'nodweddion gwarchodedig' canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a partneriaethau sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil, crefydd neu gred; rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr effaith y mae'n bosib y gall y canllaw hwn ei chael ar bobl yng Nghymru gyda nodweddion gwarchodedig?

	Cyfanswm
Nifer yr ymatebwyr	84
Oes	6 (7%)
Nac oes	8 (9%)
Ddim yn siŵr	6 (5%)
Gwag	66 (78%)

Cymharol ychydig sylwadau a gafwyd gan ymatebwyr mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Yn gyffredinol dywedodd ymatebwyr nad oeddent yn credu y bydd y canllawiau'n cael effaith negyddol ar bobl yng Nghymru sydd â nodweddion gwarchodedig. Yn wir, mae'r canllawiau wedi cael eu hysgrifennu fel eu bod yn adlewyrchu ffordd sensitif o ymdrin ag unrhyw berson sydd â nodweddion gwarchodedig.

14. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Rhoddai'r cwestiwn hwn gyfle i'r ymatebwyr i godi unrhyw faterion eraill y dylid ymdrin â nhw yn eu barn nhw. Dywedodd ymatebwyr ei bod yn debygol na fydd gan y rhai sy'n gyfrifol am ddiogelwch plant ac amddiffyn plant ar lefel ysgol yr amser i weithio drwy'r canllaw enfawr a gynhyrchwyd. O ganlyniad, mae'n bosibl na fydd sylw'n cael ei roi i agweddau o'r canllaw. Gellid cael y canllaw yn ei gyfanrwydd fel dogfen gyfeirio bwysig a defnyddiol, ond byddai'n werth ystyried ei olygu o ran maint a chynnwys mwy o siartiau llif o'r camau ymarferol y mae angen eu sefydlu, i ddarparu canllaw haws i ymarferwyr. Awgrymwyd hefyd y byddai fersiwn hawdd ei darllen o'r canllaw yn ddefnyddiol i sicrhau bod mwy o bobl yn gallu manteisio arno.

Codwyd rhai pryderon ynglŷn ag eglurder, o ran sut y caiff y canllaw ei ddiweddaru/croesgyfeirio pan fydd Biliau'n cael eu rhyddhau, er enghraifft Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) a Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yn ogystal â deddfwriaeth yn y dyfodol a allai gyd-daro â'r ddogfen hon.

Y camau nesaf

Bydd y canllawiau diwygiedig, newydd, o dan y teitl *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*, yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer iawn o waith pellach i gryfhau'r canllaw yng ngoleuni'r adborth a ddaeth i law, i sicrhau ei fod yn fwy cryno a chywir a'i fod yn haws ei ddefnyddio.

Mae'r holl sylwadau a ddaeth i law, yn cynnwys cynigion drafftio penodol, wedi cael eu hystyried wrth wneud newidiadau i'r ddogfen. Gwnaed sawl cais am wybodaeth ychwanegol. Cafodd y rhain eu hystyried yng nghyd-destun dal y ddysgl yn wastad rhwng yr awydd i ddarparu canllaw cynhwysfawr yn cwmpasu amryw o faterion a'r angen i sicrhau bod y ddogfen yn hygyrch a hawdd ei defnyddio.

Gellir darparu rhestr o'r ymatebwyr os gwneir cais.

Caiff fersiwn derfynol o dan y teitl *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* ei chyhoeddi maes o law.